At: Swyddogion Cyfrifol

30 Mehefin 2020

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

Diweddariad i ddyddiad gweithredu Amod Cydnabod Safonol F1

Mae hyn er mwyn eich hysbysu o'r amseru diwygiedig ar gyfer pryd y bydd yr Amod Cydnabod Safonol F1 newydd yn dod i rym.

Yn dilyn ein hymgynghoriad ar newidiadau i'r Amodau Cydnabod Safonol, cyhoeddwyd ein penderfyniadau ym mis Chwefror 2020. Yn ein hadroddiad ar benderfyniadau dywedasom y byddai mwyafrif y newidiadau yn dod i rym ar 1 Hydref 2020 ac eithrio'r H6.2 ac A2 newydd a ddaeth i rym fel y trefnwyd ym mis Mawrth a mis Ebrill eleni.

Mae Ofqual yn ymgynghori ar ganllawiau ar gyfer F1 ac maen nhw wedi ymestyn eu hymgynghoriad, oherwydd pandemig covid-19, a fydd yn awr yn cau ar 30 Medi 2020. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, bwriedir cyhoeddi'r canllawiau ym mis Tachwedd 2020.

Yng ngoleuni hyn, rydym ni, ynghyd ag Ofqual a CCEA Regulation, yn diwygio'r dyddiad gweithredu ar gyfer yr amod F1 newydd a bydd bellach yn dod i rym ar 18 Ionawr 2021. Bydd yr holl newidiadau eraill i'r Amodau Cydnabod a gyhoeddwyd ar y cyd gennym ni, Ofqual a CCEA Regulation ym mis Chwefror 2020 yn dod i rym ar 1 Hydref 2020 yn ôl y bwriad.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Dr Rachel Heath-Davies drwy policy@qualificationswales.org

Yn gywir,

J. Richards

Jo Richards.

Cyfarwyddwr Gweithredol, Rheoleiddio.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.cymwysteraucymru.org